# DEDDF SENEDD AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2020

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

### Rhan 4

### Anghymhwyso

***Adran 34* – Effaith anghymhwyso**

121. Mae adran 34 yn diwygio adran 18 o Ddeddf 2006 i fewnosod is-adran (A1) newydd. Mae'r is-adran honno'n darparu, os bydd person sydd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd yn cael ei enwebu fel ymgeisydd mewn etholiad, y bydd yr enwebiad yn ddi-rym.

122. Mae'r adran hefyd yn diddymu rhai darpariaethau yn adrannau 18 a 19 o Ddeddf 2006 nad oes eu hangen mwyach o ganlyniad i adran 29 o'r Ddeddf. Mae'r holl ddarpariaethau a ddiddymwyd yn ymwneud â'r posibilrwydd y caiff person ei anghymhwyso mewn perthynas ag etholaeth neu ranbarth etholiadol Senedd. Dim ond o dan adran 16(4) o Ddeddf 2006 sydd wedi'i diddymu gan adran 29(5) y mae'r posibilrwydd hwnnw'n codi.